# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 3

ADOLYGIADAU O DREFNIADAU ETHOLIADOL

*Prif ardaloedd*

### 29 Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal

(1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.

(2) Rhaid i'r Comisiwn, mewn perthynas â phob cyfnod adolygu—
- (a) paratoi a chyhoeddi rhaglen sy'n nodi ei amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr holl adolygiadau sy'n ofynnol o dan is-adran (1) yn ystod y cyfnod, a
- (b) anfon copi o'r rhaglen at Weinidogion Cymru.

(3) At ddibenion is-adrannau (1) a (2) ystyr "cyfnod adolygu" yw—
- (a) y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau gyda'r diwrnod pryd y daw'r adran hon i rym, a
- (b) pob cyfnod dilynol o 10 mlynedd.

(4) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'i ddyletswyddau yn is-adran (2)—
- (a) mewn perthynas â'r cyfnod adolygu cyntaf, cyn gynted ag y bo modd wedi iddo ddechrau, a
- (b) mewn perthynas â phob cyfnod adolygu dilynol, cyn i'r cyfnod ddechrau.

(5) Caiff y Comisiwn hefyd, o'i wirfodd neu ar gais prif gyngor, gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal.

(6) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (5) ar gais prif gyngor os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

(7) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—

(a) y newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal sydd dan adolygiad y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

(b) o ganlyniad i newid o'r fath—

(i) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal,

(ii) y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol,

(iii) y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(8) Rhaid i'r Comisiwn beidio â gwneud neu gyhoeddi, yn unrhyw gyfnod o 9 mis cyn diwrnod etholiad arferol cyngor o dan adran 26 o Ddeddf 1972 (ethol cynghorwyr), unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol prif ardal.

(9) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at drefniadau etholiadol prif ardal yn gyfeiriad at y canlynol—

(a) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal,

(b) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir y brif ardal iddynt am y tro at ddibenion ethol aelodau,

(c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal honno, a

(d) enw unrhyw ward etholiadol.

(10) At ddibenion is-adran (9)(b), mae cyfeiriad at y math o ward etholiadol yn gyfeiriad at a yw'r ward yn ward un aelod neu'n ward amlaelod.

(11) Yn y Rhan hon—

ystyr "ward amlaelod" yw unrhyw ward etholiadol y mae nifer penodedig (mwy nag un) o aelodau i'w hethol ar gyfer y ward honno,

ystyr "ward etholiadol" yw unrhyw ardal yr etholir aelodau i awdurdod lleol ar ei chyfer, ac

ystyr "ward un aelod" yw ward etholiadol y mae un aelod yn unig i'w ethol ar ei chyfer.

## 30 Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal

(1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal—

(a) ceisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly,

(b) rhoi sylw i'r canlynol—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly,

(ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.

(2) At ddibenion is-adran (1)(a), rhaid rhoi sylw i'r canlynol—

(a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol), a

(b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol hynny o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18) y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.

(4) Yn y Rhan hon, ystyr "etholwr llywodraeth leol" yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.